# Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau 2026

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 30 Mehefin 2026

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg ........ 3
Prif ganfyddiadau ........ 4
Y data rhyngweithiol ........ 10

# Trosolwg

Mae'r Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau yn borth data rhyngweithiol, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr archwilio data a gasglwyd o'r diwydiant gan Ofcom, data o ymchwil defnyddwyr Ofcom, a phrif ffigurau gan drydydd partïon dethol.

Gellir dod o hyd i sylwebaeth a dadansoddiad o lawer o'r data a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu ar gael yn ein hadroddiadau Cyfryngau’r Genedl, Ein Gwlad Ar-lein a Chysylltedd y Cenhedloedd, lle rydym yn adolygu ac yn archwilio sectorau penodol o'r marchnadoedd cyfryngau a chyfathrebu yn fanwl.

Yn y ddogfen fer hon, rydym yn tynnu sylw at rai canfyddiadau allweddol a ddatgelwyd gan ein data diweddaraf.

# Prif ganfyddiadau

## Telegyfathrebiadau

- **Cynhyrchodd sector telegyfathrebiadau’r DU £34.7 biliwn mewn refeniw yn 2025**, dyma ostyngiad o £0.3 biliwn (0.8%) flwyddyn i flwyddyn. Cynhyrchodd gwasanaethau sefydlog a symudol adwerthol £14.9 biliwn a £14.5 biliwn o refeniw yn y drefn honno, y ddau yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda gwasanaethau sefydlog a symudol cyfanwerthol yn cyfrif am £5.3 biliwn sy'n weddill. Roedd gwasanaethau symudol yn cyfrif am 49.4% o gyfanswm refeniw manwerthu yn 2025, i fyny 0.2pp o'i gymharu â 2024.
- **Roedd 29.3 miliwn o gysylltiadau band eang sefydlog yn y DU erbyn diwedd 2025**, cynnydd o 126,000 o'i gymharu â 2024. Darparwyd 42% o gysylltiadau band eang gan ddefnyddio ffeibr llawn ar ddiwedd 2025, cynnydd o 11 ar ddiwedd y flwyddyn, wrth i nifer y llinellau ffeibr llawn gynyddu 3.4 miliwn (38%) i 12.3 miliwn. Gostyngodd nifer y cysylltiadau ffeibr i'r cabinet (FTTC) yn 2025 (i lawr 2.6 miliwn i 9.9 miliwn), tra gostyngodd nifer y llinellau ADSL dros chwarter i 1.3 miliwn.
- **Defnydd data misol cyfartalog fesul cysylltiad band eang sefydlog preswyl (gan gynnwys uwchlwythiadau a lawrlwythiadau) oedd 583 GB ym mis Gorffennaf 2025.** Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 52 GB y mis (10%) o'i gymharu â'r cyfartaledd o 531 GB flwyddyn ddiwethaf.
- **Ar ddiwedd 2025, roedd 21.4 miliwn o gysylltiadau llais sefydlog yn y DU,** gostyngiad o 2.8 miliwn (12%) o un flwyddyn i’r llall. Er bod nifer y llinellau PSTN/llinellau PSTN wedi’u hefelychu a sianeli ISDN yn parhau i ostwng yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y cysylltiadau 'eraill' (cysylltiadau llais dros y rhyngrwyd a reolir, yn bennaf) 1.4 miliwn (12%) i 12.9 miliwn. Daeth hyn yn sgil y defnydd cynyddol o wasanaethau band eang ffeibr llawn a gwasanaethau llais sy'n defnyddio llais dros y rhyngrwyd a reolir, dros gysylltiad band eang.
- **Parhaodd cyfeintiau galwadau llais sefydlog a symudol ostwng yn 2025.** Gostyngodd cyfanswm galwadau o Linell tir sefydlog a symudol 12 biliwn munud (7%) i 164 biliwn munud yn 2025. Gostyngodd galwadau allanol o linellau tir sefydlog 19% i 15 biliwn munud yn ystod y flwyddyn, tra gostyngodd galwadau o ffonau symudol 6% i 149 biliwn munud. Roedd cyfran y galwadau a oedd yn deillio o rwydweithiau symudol yn 91% yn 2025, i fyny o 90% yn 2024.
- **Ar ddiwedd 2025 cyfanswm nifer o danysgrifiadau symudol oedd 123 miliwn,** cynnydd o 4% flwyddyn i flwyddyn. Y cynnydd canrannol mwyaf oedd ar gyfer tanysgrifiadau peiriant-i-beiriant (M2M)[1] (i fyny 15% neu 4.1 miliwn o danysgrifiadau).
- **Roedd 82% o danysgrifiadau symudol yn ôl-dalu yn 2025, i fyny un pwynt canran o un flwyddyn i’r llall.** Cynyddodd cyfanswm nifer y tanysgrifiadau ôl-dalu 6% i 101 miliwn yn ystod y flwyddyn, tra gostyngodd nifer y tanysgrifiadau talu ymlaen llaw 3% i 22 miliwn.

[1] Mae tanysgrifiad M2M (Peiriant-i-Beiriant) yn gysylltiad symudol sy'n galluogi dyfeisiau i gyfathrebu â'i gilydd dros rwydwaith symudol. Mae enghreifftiau'n cynnwys mesuryddion clyfar (ynni, dŵr, nwy yn adrodd data yn ôl i gyfleustodau), dyfeisiau olrhain (rheoli fflyd, logisteg) a therfynellau talu (anfon data gwerthu/trafodion).

- **Cynyddodd cyfeintiau data misol cyfartalog fesul defnyddiwr data symudol 1.1 GB (11%) i 11.8 GB y mis yn 2025.** Ar draws yr holl ddefnyddwyr symudol, defnydd data misol cyfartalog oedd 10.7 GB, hefyd yn cynrychioli cynnydd o 11% o flwyddyn i flwyddyn.
- **Parhaodd munudau galwadau misol a negeseuon fesul tanysgrifiad symudol ar gyfartaledd i ostwng yn 2025.** Gostyngodd cyfeintiau galwadau allanol cyfartalog fesul tanysgrifiad 6% i 146 munud y mis, tra gostyngodd negeseuon allanol cyfartalog fesul tanysgrifiad tua chwarter i 21 y mis. Er bod y defnydd o alwadau cwsmeriaid ôl-dalu misol cyfartalog (164 munud) bron ddwywaith y defnydd o gwsmeriaid talu ymlaen llaw (84 munud), roedd negeseuon misol cyfartalog fesul tanysgrifiwr ôl-dalu a thalu ymlaen llaw yr un fath (21 neges).

## Teledu a chyfryngau clywedol

- **Cyrhaeddodd cyfanswm refeniw'r sector teledu a fideo masnachol ar-lein y DU £16.5bn yn 2025,** cynnydd nominal o 6% o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae'r twf hwn yn parhau i guddio amrywiad sylweddol ar draws gwahanol rannau o'r farchnad, gyda segmentau ar-lein yn gyrru ehangu tra bod refeniw darlledwyr teledu yn parhau i fod dan bwysau.
- **Gwnaeth teledu-drwy-dalu barhau fel yr elfen unigol fwyaf o'r farchnad**, gyda refeniw yn codi o £5.99 biliwn i £6.22 biliwn (gan gynnwys refeniw tanysgrifio darparwyr tanysgrifio teledu fel Sky a Virgin Media). Awgryma'r twf hwn rhywfaint o sefydlogrwydd yn dilyn gostyngiadau cynharach, wedi'u gyrru gan gynnydd mewn prisiau ac offrymau bwndelu. Fodd bynnag, mae tueddiadau tanysgrifwyr sylfaenol yn parhau i fod yn heriol, gyda threiddiad cartrefi teledu-drwy-dalu traddodiadol yn gostwng 3 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall i 30% yn Ch1 2026.[2]
- **Cynyddodd refeniw Fideo-ar-Alw Darlledwyr (BVoD) i £1.15bn yn 2025 (cynnydd o 8% o un flwyddyn i'r llall)** ac erbyn hyn mae'n cyfrif am 29% o gyfanswm refeniw hysbysebu teledu yn y DU. Mewn cyferbyniad, gostyngodd refeniw hysbysebu teledu llinol o £3.13bn i £2.81bn (gostyngiad o 10%).
- **Gostyngodd gwariant ar raglenni rhediad cyntaf a darlledwyd yn y DU gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus o £2.8bn yn 2024 i £2.6bn yn 2025 (gostyngiad o 6%), gan adlewyrchu amodau comisiynu mwy cyfyngedig yn dilyn cynnydd a yrrwyd gan chwaraeon yn 2024.** Gyrrwyd cynnydd 2024 gan gylch cryf o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr, gan gynnwys Ewro UEFA 2024 y Dynion a Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Paris. Ac eithrio rhaglenni chwaraeon, cynyddodd gwariant cyntaf 2% y DU yn 2025, sy 'n dangos gwytnwch cymharol o fuddsoddiad ar draws y rhan fwyaf o genres eraill.
- **Cynyddodd cyfanswm yr oriau gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf 3% yn 2025,** gan godi i ychydig dros 31,400 awr. Mae hyn yn nodi sefydlogrwydd ar ôl dwy flynedd yn olynol o allbwn sy'n gostwng, er bod cyfeintiau'n parhau i fod yn islaw'r lefelau cyn y pandemig.
- **Bu cynnydd mewn gwariant rhaglenni gan ddarlledwyr amlsianel ar draws genres allweddol (Chwaraeon, Adloniant, Ffilmiau, Newyddion, Ffeithiol, Plant, Hamdden a Cherddoriaeth) yn 2025.** Cynyddodd y gwariant ar raglenni o £4.6 biliwn i £4.8 biliwn, tra bod gwariant ar sianeli chwaraeon wedi cynyddu i £3.5 biliwn yn 2025 (cynnydd o 5% o un

[2] Arolwg Sefydlu Barb Ch1 2026, mae teledu-drwy-dalu traddodiadol yn cynnwys aelwydydd sydd â thanysgrifiad Sky neu Virgin

flwyddyn i’r llall), gan atgyfnerthu rôl ganolog hawliau chwaraeon premiwm ar gyfer teledu-drwy-dalu.

- **Roedd refeniw gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) y DU yn fwy na £5.17bn yn 2026, i fyny 18% o un flwyddyn i’r llall.** Wrth i dwf net tanysgrifwyr sefydlogi, mae cynnydd mewn prisiau, bwndelu a haenau hysbysebu yn cefnogi twf refeniw.
- **Cynyddodd cyfraniadau trydydd parti i raglenni gwreiddiol Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2025,** gan godi o £677m yn 2024 i £748m. O ganlyniad, roedd cyllid trydydd parti yn cyfrif am gyfran uwch o gyfanswm buddsoddiad, gan atgyfnerthu ei bwysigrwydd wrth ariannu cynnwys sy'n deillio o'r DU.
- **Bu ostyngiad pellach yn y nifer o bobl sy’n gwylio fideo yn 2025 na'r blynyddoedd diwethaf,** gan ostwng 7 munud i 4 awr a 23 munud y person y dydd. Cafodd hyn ei yrru'n bennaf gan y gostyngiad parhaus mewn gwylio teledu darlledu, a oedd i lawr 12 munud i 1 awr a 30 munud. Roedd cynnwys darlledu (gan gynnwys chwarae byw, wedi'i recordio a fideo ar-alw darlledwyr) yn ffurfio 53% o wylio fideo yn y cartref yn 2025, o'i gymharu â 56% yn 2024, gydag unigolion yn gwylio am 2 awr a 19 munud y dydd ar gyfartaledd, i lawr 11 munud o flwyddyn i flwyddyn. Unwaith eto, gwelodd fideo ar-alw darlledwr (BVoD) dwf, gan gynyddu 6 munud ar gyfartaledd y dydd. Roedd yr enillion mwyaf nodedig ymhlith gwylwyr 55+ oed.
- **Parhaodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teledu darlledu i ostwng yn gyffredinol** (ymhlith poblogaeth 4+ y DU), gan fynd o 74% yn 2024 i lawr i 70% yn 2025. Gwelodd y rhai 16-24 oed y gostyngiad mwyaf sydyn, gyda chyfanswm cyrhaeddiad teledu darlledu i lawr 6 pwynt canran yn 2024 i 39%, tra arhosodd yn gymharol wastad ymhlith y rhai 75+ oed ar 95%.
- **BBC oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd yn gyffredinol,** gan gyfrif am 46% o gyfanswm gwylio fideo yn y cartref ar draws pob dyfais. Fodd bynnag, ar gyfer pob grŵp oedran o dan 34, Netflix oedd y gwasanaeth a wyliwyd fwyaf. Ymhlith pobl 16-34, cymerodd Netflix a TikTok y safle cyntaf a'r ail safle a syrthiodd y BBC i'r trydydd safle. Ymhlith plant 4-15 oed, roedd Netflix yn gyntaf, tra daeth y BBC yn ail a TikTok yn drydydd.

## Cynnwys radio a sain

- **Roedd bron i naw o bob deg (87%) o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU yn gwrando ar y radio yn ystod wythnos arferol yn Ch1 2026**, gan wrando, ar gyfartaledd, am 19.9 awr yr wythnos **.** Er eu bod yn sefydlog o'i gymharu â'r llynedd, mae cyrhaeddiad ac oriau i lawr o'i gymharu â 2024.
- **Mae gorsafoedd radio masnachol yn parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o’r gwrando (54.3% o'r oriau wythnosol),** tra bo’r BBC yn parhau i fod â’r gyfran uchaf o unrhyw ddarlledwr unigol yn y DU (43.4% o’r oriau wythnosol, o'i gymharu â Global 25.2% a Bauer 18.8%) ar draws pob platfform, h.y. DAB, AM/FM ac ar-lein, gan gynnwys seinyddion clyfar.
- **Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwrando ar radio drwy set AM/FM neu ddigidol (DAB/DAB +),** sy'n cyfrif am 67% o'r holl oriau gwrando ar y radio. Mae cyfran y bobl sy’n gwrando ar DAB (43% erbyn hyn) wedi aros yn gymharol gyson, tra bod cyfran AM/FM o’r gwrando (24%) yn parhau i ostwng. Yn y cyfamser, mae nifer y bobl sy’n gwrando ar-lein yn parhau i gynyddu'n gyson, i fyny 6 pwynt canran yn y tair blynedd diwethaf o 24% yn Ch1 2023 i 30% yn Ch1

2026. Mae seinyddion clyfar yn unig bellach yn cyfrif am 19% o’r radio y gwrandewir arno, i fyny 5 pwynt canran ers tair blynedd yn ôl.

- **Roedd cyfanswm y trosiant ar gyfer radio masnachol (h.y. refeniw sy'n gysylltiedig â darlledu) yn £674m yn 2025, i fyny o £651m yn 2024.** Parhaodd refeniw hysbysebu cenedlaethol i berfformio'n well yn lleol, gan ymestyn newid strwythurol hir dymor yn y farchnad.

## Ar-lein

- **Yn 2025 bu oedolion y DU yn treulio pedair awr a hanner ar-lein y diwrnod ar gyfartaledd yn 2025 – cynnydd o 10 munud ers 2024.** Mae gan 95% o boblogaeth 16+ y DU fynediad i'r rhyngrwyd gartref, a'r amser cyfartalog a dreuliwyd y dydd ar-lein ar ffonau clyfar, tabledi a chyfrifiaduron personol (h.y. nid gwaith) ym mis Mai 2025 oedd 4 awr a 30 munud.[3]
- **Roedd hanner (51%) yr amser a dreuliwyd ar-lein gan oedolion y DU yn 2025 ar wasanaethau sy'n eiddo i Alphabet neu Meta.** YouTube gan Alphabet oedd y gwasanaeth a ddefnyddiwyd fwyaf, a ddefnyddiwyd gan 94% o ddefnyddwyr rhyngrwyd sy'n oedolion ym mis Mai 2025. Cynyddodd yr amser a dreuliwyd ar YouTube hefyd, gan gyrraedd 51 munud y dydd ar gyfartaledd (heb gynnwys y set deledu), o'i gymharu â 47 munud yn 2024. Defnyddiwyd Google Search gan 82% o oedolion ar-lein yn y mis.[3]
- **WhatsApp oedd y gwasanaeth negeseuon a ddefnyddiwyd fwyaf yn 2025.** Ar gyfartaledd, roedd 74% o oedolion ar-lein yn y DU yn defnydddio WhatsApp bob dydd ym mis Mai 2025, i fyny o 64% ym mis Mai 2024. Defnyddiwyd Facebook Messenger gan 23% bob dydd, i lawr o 30% yn 2024[3]
- **Ymwelodd 97% o oedolion ar-lein â gwasanaeth newyddion ym mis Mai 2025, gan dreulio 10 munud ar gyfartaledd ar y gwasanaethau hyn y dydd**, yn lefel â 2024. Y BBC oedd y brand a ymwelwyd ag ef fwyaf o ran gwasanaeth newyddion, a ddefnyddiwyd gan 77% o oedolion ar-lein y DU mewn mis.[3]
- **Mae tua thraean (35%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd sy'n oedolion yn y DU yn dweud eu bod yn teimlo bod y rhyngrwyd yn 'dda i gymdeithas',** gyda thua hanner yn parhau i fod yn niwtral (47%) ac ychydig o dan un rhan o bump (18%) yn adrodd bod y rhyngrwyd yn 'niweidio cymdeithas'. Er gwaethaf hyn, mae dwy ran o dair (66%) yn credu bod manteision bod ar-lein yn gorbwyso'r risgiau.[3]
- **Mae bron pob plentyn 8-17 oed ar-lein (99%) ac mae gan y rhan fwyaf (78%) eu ffôn symudol eu hunain - gyda pherchnogaeth yn codi’n serth rhwng 10 ac 11 oed (56% i 83%).** Y ffôn symudol oedd y ddyfais fwyaf cyffredin y mae plant yn ei ddefnyddio i fynd ar-lein (77% ymhlith y rhai sy'n mynd ar-lein) - roedd chwech o bob deg (59%) yn defnyddio tabled, a 55% yn defnyddio consol gemau. Roedd gwylio cynnwys fideo (89%) a gemau ar-lein (72%) ymhlith y gweithgareddau ar-lein mwyaf poblogaidd i blant (8-17 oed).[4]
- **Treuliodd plant 8-14 oed ar gyfartaledd 3 awr 36 munud y dydd rhwng Hydref 2025 i Fawrth 2026 ar draws ffonau clyfar, tabledi neu gyfrifiaduron**. O'r amser hwn, treuliwyd 1

[3] Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2025
[4] Adroddiad Profiadau Ar-lein Plant, Mai 2026. Mae'n cymharu canfyddiadau dwy don o'n harolwg Olrhain Diogelwch Ar-lein Plant (COST): Thon 1 rhwng Mawrth ac Ebrill 2025 a Ton 2 rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2025

awr a 59 munud ar gyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau rhannu fideo. Treuliodd plant y mwyaf o amser ar YouTube (49 munud y dydd, sy'n cyfateb i 23% o weithgarwch ar-lein dyddiol) ac yna Snapchat (39 munud, 18% o'u gweithgaredd ar-lein dyddiol). Mae'r amser cyfartalog a dreulir ar-lein yn cynyddu gydag oedran - plant hŷn (15-17 oed) sy'n treulio 6 awr 20 munud y dydd ar gyfartaledd.[5]

- **Mae bron i bedwar o bob deg (37%) o blant 8-17 oed yn dweud eu bod yn meddwl eu bod yn treulio gormod o amser ar sgriniau. Mae hyn yn cynyddu o 28% ymhlith 8-9 oed i 44% o bobl ifanc 16-17 oed.** Mae dros hanner (55%) o rieni 8-17 oed yn dweud eu bod yn credu bod amser sgrin eu plentyn yn rhy uchel, gan godi o 49% o rieni plant 8-9 oed i 57% o rieni pobl ifanc 13-17 oed**.** Fodd bynnag, mae llawer o rieni yn dweud bod bod ar-lein yn helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol/gwaith cartref (53%) a datblygu sgiliau gyda darllen a rhifau (48%).[6]

**Bydd data ar-lein wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2026 yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad rhyngweithiol ochr yn ochr â chyhoeddi Ein Gwlad Ar-lein yn yr hydref.**

# Post

- **Mae saith o bob deg oedolyn (73%) yn dweud eu bod wedi anfon eitem drwy'r post yn ystod y mis diwethaf.** O'r rhain, mae 4 o bob 10 (42%) yn dweud eu bod wedi anfon llai na thair eitem o bost yn ystod y mis diwethaf. Mae naw o bob deg (93%) yn dweud eu bod wedi derbyn eitem drwy'r post yn ystod yr wythnos ddiwethaf.
- **Mae niferoedd llythyrau cyffredinol (gan gynnwys post etholiadol) wedi parhau i ostwng, ond mae'r dirywiad hwn wedi arafu, gyda niferoedd llythyrau wedi'u cyfeirio yn cyrraedd 6.5 biliwn yn 2024.** Mae hwn yn ostyngiad o 4.9% flwyddyn ar ôl flwyddyn o'i gymharu â gostyngiad o 8.3% yn 2023. Unwaith eto, roedd post swmp mynediad yn cyfrif am y rhan fwyaf (69.7%) o lythyrau a anfonwyd yn 2024 (4.5 biliwn o eitemau), gyda'i gyfran i lawr 0.2 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall. Roedd post swmp mynediad i lawr 5.3% flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel yr oedd cyfrolau llythyrau wedi'u cyfeirio o'r dechrau i'r diwedd Post Brenhinol (a oedd yn gyfanswm o 2.0 biliwn).
- **Mae ychydig o dan ddwy ran o dair (62%) o bobl 16 oed a hŷn yn y DU yn ystyried bod post yn hanfodol neu'n eithaf pwysig fel sianel gyfathrebu â theulu a ffrindiau.** Mae'r rhai sy'n 55 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud bod post yn bwysig iddynt (67%), fel y mae'r rhai sy'n methu gadael y cartref heb gymorth (72%). Fodd bynnag, o ran pwysigrwydd i ddefnyddwyr, mae post yn llai pwysig na ffyrdd eraill o gyfathrebu â ffrindiau a theulu. Mae tua 6 o bob 10 o ddefnyddwyr yn y DU (62%) yn ei ddisgrifio fel sianel hanfodol neu eithaf pwysig. Yn gymharol, mae 9 o bob 10 (92%) yn ystyried galwadau ffôn yn hanfodol neu'n weddol bwysig, ac mae cyfran debyg (90%) yn dweud yr un peth am negeseuon testun.
- **Dywed wyth o bob deg oedolyn (80%) eu bod yn fodlon â gwasanaeth y Post Brenhinol yn gyffredinol,** gyda chyfran debyg (83%) yn fodlon ag ansawdd y dosbarthu i'w cartref.

[5] Mesur Defnydd Goddefol Ar-lein Plant 2026 (Gwaith Maes rhwng Hydref 2025 a Mawrth 2026)
[6] Plant a Rhieni: Adroddiad agweddau a defnydd o gyfryngau 2026 (Gwaith maes rhwng Tachwedd 2025 a Chwefror 2026)

**Yn 2025, graddiodd pedwar o bob deg (39%) wasanaeth Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol fel gwerth da am arian, yn unol â 2024 (41%).** Ar gyfer Ail Ddosbarth, roedd tua 6 o bob 10 oedolyn (58%) o'r farn ei fod yn werth da am arian, i fyny o 54% yn 2024.

**Bydd data newydd ar niferoedd a refeniw post yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad rhyngweithiol yn yr hydref.**

# Y data rhyngweithiol

Mae data rhyngweithiol Adroddiad y Farchnad Gyfathrebiadau ar gael yma:

https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/cmr

Mae chwe adran yn yr adroddiad: data sy'n cwmpasu'r sectorau cyfathrebu a'r cyfryngau yn eu cyfanrwydd, teledu a chyfryngau clywedol, radio a sain, telegyfathrebiadau, ar-lein a phost. Isod, rydym yn nodi'r sydd i'w weld ym mhob adran.

## Y farchnad mewn cyd-destun

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Gwariant hysbysebu ar draws y sectorau cyfathrebu a'r cyfryngau
- Ymchwil defnyddwyr ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu
- Defnydd o ddyfeisiau a gwasanaethau
- Problemau fforddiadwyedd ar draws y sectorau cyfathrebu a'r cyfryngau

## Cynnwys clywedol a theledu

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Refeniw darlledwyr teledu
- Oriau a gwariant ar gynnwys ar gyfer darlledwyr teledu masnachol
- Oriau a gwariant ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith a rhanbarthol
- Gwylio teledu, gan gynnwys cyrhaeddiad, cyfran a munudau bob dydd ar gyfartaledd.
- Tueddiadau refeniw'r sector cynhyrchu
- Ymchwil defnyddwyr i'r defnydd o wasanaethau fideo ar-alw (VoD) a'r agweddau tuag atynt
- Catalogau, refeniw a gwasanaethau fideo ar-alw
- Y defnydd o blatfformau fideo cymdeithasol ymysg plant ac oedolion

## Radio a chynnwys sain

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Refeniw darlledwyr radio
- Gwrando ar y radio, gan gynnwys cyrhaeddiad a chyfran
- Refeniw a gwariant radio cymunedol
- Ymchwil defnyddwyr ar agweddau a defnydd o sain a phodlediadau

## Telegyfathrebiadau

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Data telegyfathrebiadau ar refeniw, niferoedd a chyfrannau o'r farchnad
- Niferoedd a defnyddwyr gweithredol Gwasanaethau Cyfathrebu Ar-lein (i'w ddiweddaru yn haf 2026)
- Data gwariant misol cyfartalog
- Data perfformiad band eang mewn Cartrefi
- Ymchwil defnyddwyr o’n traciwr technoleg
- Ymchwil defnyddwyr o’n traciwr boddhad cwsmeriaid

## Ar-lein

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Defnyddi o apiau a gwefannau, gan gynnwys cyrhaeddiad, amser a dreulir a defnydd ar wahanol ddyfeisiau
- Agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a’u phrofiadau ohonynt, gan gynnwys y posibilrwydd o ddod ar draws niwed ar-lein - ymchwil defnyddwyr Traciwr Profiadau Ar-lein
- Profiad defnyddwyr o gynnwys niweidiol, ymwybyddiaeth o fesurau diogelwch a mesurau adrodd ar blatfformau rhannu fideo - ymchwil defnyddwyr Traciwr Platfformau Rhannu Fideo (i'w ddiweddaru yn haf 2026)
- Y nifer sy’n defnyddio cysylltedd rhyngrwyd, gan gynnwys rhesymau dros beidio â bod ar-lein - ymchwil defnyddwyr Traciwr Technoleg Ofcom (i'w ddiweddaru yn haf 2026)

Mae hefyd yn cynnwys mewnwelediadau ar ddefnydd ar-lein plant:

- Arolwg Olrhain Diogelwch Ar-lein Plant Ton 2, sy'n cwmpasu hapusrwydd plant 8–17 oed ar-lein, cyfran y bobl 11–17 oed sy'n wynebu niwed, a'r camau a gymerwyd
- Mesur Defnydd Goddefol Ar-lein Plant 2026 sy'n archwilio apiau a gwefannau a ddefnyddir gan blant 8–14 oed a'r amser a dreuliwyd
- Llythrennedd yn y cyfryngau a lles ar-lein, gan gynnwys sut mae plant yn defnyddio gwasanaethau ar-lein i gefnogi lles, manteision canfyddedig o fod ar-lein, ac agweddau at amser sgrin gan Blant a Rhieni: Adroddiadau agweddau a defnydd o gyfryngau, 2026.

## Post

Mae'r adran hon yn cynnwys data ar y canlynol:

- Data ymchwil defnyddwyr o'n traciwr post preswyl a busnes
- Niferoedd a refeniw post (i'w ddiweddaru yn hydref 2026)